

Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Chynllun Gweithredu

CYNNWYS

	Tudalen.
1. Cyflwyniad	2
2. Cyd-destun yr Adolygiad	7
3. Agweddau sy'n galw am sylw	8
Atodiad A Cynllun Gweithredu	18
Atodiad B Deddfwriaeth Berthnasol	21
Annex C Nifer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion Cofrestredig yn ôl awdurdod lleol, Chwefror 2011	23
Cyfeiriadau	24

Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Chynllun Gweithredu

1. Cyflwyniad

1.1. Yn y ddogfen hon ceir darlun o'r gwaith a wnaed i adolygu ffynonellau gwybodaeth presennol ac i ddatblygu dull gweithredu a fydd yn sicrhau addysg heblaw yn yr ysgol ddigonol o safon uchel. Mae addysg heblaw yn yr ysgol yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac nid yw'n cynnwys yr addysg a ddarperir gan rieni sydd wedi dewis addysgu eu plant gartref. Ceir crynodeb o'r prif ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad hwn yn y Ddogfen Dystiolaeth ar wahân sydd ar gael ar yr un dudalen â'r Adolygiad hwn ar y we. Nodir camau gweithredu drwy'r ddogfen a chasglwyd y rhain at ei gilydd yn y cynllun gweithredu yn Atodiad A. Mynegir llawer o'r camau gweithredu fel amcanion bras a chynhelir trafodaethau ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn pennu'r manylion a phenderfynu ar y ffordd orau i roi'r cynllun ar waith.

1.2. Yr egwyddor sydd wrth wraidd cynnal yr adolygiad hwn yw'r angen i sicrhau cyfleoedd cyfartal a hawl plant a phobl ifanc i gael addysg o safon uchel, lle bynnag y darperir yr addysg honno – fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 28) a fabwysiadwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae Erthygl 28 hefyd yn dweud y dylai gwladwriaethau 'Take measures to encourage regular attendance at schools and the reduction of drop-out rates', sy'n arbennig o berthnasol i ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol.

1.3. Mae Erthygl 12 CCUHP yn nodi hawl plant i leisio eu barn yn agored ar bob mater sy'n effeithio arnynt. Dyma yw sail agwedd Llywodraeth Cymru at gyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae hyrwyddo'r hawl hon cyn bwysiced i blant a phobl ifanc sy'n cael addysg y tu allan i'r ysgol ag y mae i blant mewn ysgolion.

1.4. Rhaid ystyried Addysg Heblaw yn yr Ysgol ochr yn ochr â'r angen i awdurdodau lleol, ysgolion a'u partneriaid fabwysiadu strategaethau ataliol i leihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen darpariaeth amgen drwy sicrhau bod unrhyw gymorth ychwanegol y mae arnynt ei angen yn cael ei ganfod cyn gynted ag y bo modd ac y gwneir trefniadau priodol i osgoi gwahardd. Mae'r canllawiau presennol ar y maes hwn i'w gweld ar wefannau Llywodraeth Cymru, sef: www.wales.gov.uk/inclusionandpupilsupport.

1.5. Fel rhan o Arolwg Thematig Estyn o Addysg Heblaw yn yr Ysgol, dywedodd awdurdodau lleol bod 1,600 o ddysgwyr yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol ym mis Mai 2004 a bod 1,000 o'r rhain mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, gydag oddeutu 60% ohonynt wedi'u cofrestru'n unigol a 40% wedi'u cofrestru'n ddeuol. Yng nghyfrifiad cyntaf CYBLD o ddisgyblion oedd yn cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol ym mis Ionawr 2010, Addysg Heblaw yn yr Ysgol oedd prif ddarpariaeth oddeutu 1,000 o ddisgyblion. Roedd oddeutu 1,400 o ddisgyblion eraill yn derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol wedi'i chyllido

gan yr awdurdod lleol ond eu prif ddarpariaeth oedd mewn ysgol. Roedd 1,166 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ac roedd 800 o'r rhain wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn ysgol. Ond, rhaid cofio efallai nad yw'r data a gasglwyd gan Estyn a'r data a gasglwyd drwy CYBLD yn gymaradwy gan fod y dulliau a ddefnyddiwyd yn wahanol. Ar wahân i'r trafodaethau hynny, cyfran fach o'r holl ddysgwyr yw'r rhai sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Fodd bynnag, mae eu hanghenion yn anghymesur o uchel ac o ganlyniad, mae'r lefelau cymorth hefyd llawer yn uwch ac mae'r costau sy'n gysylltiedig hefyd yn uwch.

1.6. Yn yr wybodaeth ddiweddaraf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chasglu gan awdurdodau lleol, roedd y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn awgrymu bod 49 uned yn bodoli ym mis Chwefror 2011, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r 31 uned ym mis Ionawr 2005. Ond, ni ddylid cymryd y ffigurau hyn ar eu golwg fel tystiolaeth o dwf sylweddol diweddar mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ag awdurdodau lleol yn 2005/06 i archwilio faint o Unedau Cyfeirio Disgyblion oedd yng Nghymru ac amlygwyd nifer o Unedau Cyfeirio Disgyblion nad oedd wedi cael eu cofrestru cyn hynny. Efallai, felly, mai adlewyrchu system gofrestru fwy llym y mae'r cynnydd hwn i raddau helaeth ac mae'n debygol fod ffigur 2011 hefyd yn amcangyfrif rhy isel oherwydd anawsterau o safbwynt cynnal rhestrau diweddar o Unedau Cyfeirio Disgyblion cofrestredig.

1.7. Mae sicrhau addysg y tu allan i'r ysgol ddigonol o safon uchel yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt cyfiawnder cymdeithasol gan y bydd nifer fawr o'r rhai y mae angen y ddarpariaeth hon arnynt eisoes yn agored i niwed oherwydd bod ganddynt anghenion tymor hir megis anghenion addysgol arbennig neu oherwydd eu bod mewn gofal cyhoeddus. Pobl ifanc sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol yw un o'r categorïau sydd yn y perygl mwyaf o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Felly, mae gwella safon Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn elfen hanfodol o nod Llywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

1.8. Roedd yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008 unwaith eto'n amlygu'r heriau mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu hwynebu wrth sicrhau bod y ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol sydd ar gael i'r rhai sydd ei hangen yn ddigonol ac o safon uchel, boed hynny oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd, fel darpariaeth tymor byr er mwyn cael disgyblion yn ôl ar y trywydd iawn, neu unrhyw reswm arall megis salwch neu famolaeth.

1.9. Negeseuon allweddol yr Adroddiad ar yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb oedd bod:

nifer o ddisgyblion sydd allan o'r ysgol am amryw o resymau ddim yn cael addysg briodol, ac nid yw'r ddarpariaeth addysgol sy'n cael ei chynnig iddynt yn cael ei monitro'n iawn. Am y rheswm hwn...

...er bod rhai enghreifftiau gwych o gwricwlwm a darpariaeth y tu allan i'r ysgol amgen ar gael, mae hwn hefyd yn tueddu i amrywio o awdurdod i awdurdod...

1.10. Mae'r Ddogfen Dystiolaeth yn cynnwys holl argymhellion Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb ynghylch addysg y tu allan i'r ysgol.

1.11. Ceir rhagor o dystiolaeth bod angen adolygu'r ddarpariaeth o addysg heblaw yn yr ysgol gan Estyn, yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Estyn i gynnal arolwg o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg a chyhoeddwyd hwn yn 2005 (gweler y Ddogfen Dystiolaeth). Ymhlith ei argymhellion oedd yr angen i egluro beth oedd swyddogaeth unedau cyfeirio disgyblion yn well, gwella cyfathrebu a chysylltiadau, tynhau arferion cofrestru a monitro cynnydd sefydliadau a disgyblion unigol. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu Estyn i gynnal arolwg o'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn lleoli ac yn monitro disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol a'r rhai oedd ar goll o addysg (gweler y Ddogfen Dystiolaeth) a chafwyd rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Adolygiad hwn yn sgil yr arolwg hwnnw.

1.12. Tynnodd Estyn sylw at nifer o'r negeseuon uchod eto yn adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2009-10 (gweler y Ddogfen Dystiolaeth). Ar gyfartaledd, mae'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a arolygwyd gan Estyn ers 2004-05 wedi cael graddau is nag ysgolion (gweler y Ddogfen Dystiolaeth). Fodd bynnag, mae rhai Unedau Cyfeirio Disgyblion yn darparu addysg ardderchog a gallent fod yn ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer rhannu arferion da ar raddfa ehangach. Er bod elfen o oddrychedd yn y graddau a roddwyd i bob cwestiwn allweddol, serch hynny gallent fod yn arwydd pellach o'r meysydd y mae angen canolbwyntio'n benodol arnynt yng Nghymru. Wrth ystyried y cyfartaleddau ar draws Cymru, yr awgrym yw bod Unedau Cyfeirio Disgyblion fel grŵp yn arbennig o fedrus o ran rhoi cymorth ac arweiniad (CA4 - cyfartaledd o 1.5) ond eu bod ar ei hôl hi o ran:

CA3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? (2.5)

CA5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? (2.3)

CA6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? (2.4)

CA7 Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? (2.4)

1.13. Nid yw'n fawr o syndod bod llawer o'r materion a godwyd yn yr adolygiad diweddar o ddarpariaeth amgen yn Lloegr a gynhaliwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ('Back on Track' a 'Taking Back on Track Forward', 2008) yn debyg iawn i'r rhai yng Nghymru. Er bod y gwaith hwn wedi'i wneud dan lywodraeth flaenorol, ac na fydd y llywodraeth bresennol yn bwrw ymlaen â llawer o'r camau gweithredu, mae'n dal i fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o ran dystiolaeth bellach a gall fod yn sail i ddulliau gweithredu posibl y gellid eu defnyddio yng Nghymru (gweler y Ddogfen Dystiolaeth).

1.14. Mae dau adroddiad gan Ofsted hefyd o ddiddordeb. Ymddangosodd y cyntaf yn 2007 (Sefydlu arferion llwyddiannus mewn unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol). Ynndo, ystyrir y ffordd yr aeth 28 Uned Gyfeirio Disgyblion llwyddiannus yn Lloegr ati i ganfod y prif elfennau sy'n angenrheidiol i redeg Uned Gyfeirio Disgyblion llwyddiannus. Ac mae'r ail, a ymddangosodd yn 2011, yn ymwneud â Darpariaeth Amgen (gweler y Ddogfen Dystiolaeth).

1.15. Mae'r adroddiad ymchwil 'Good Practice in the Provision of Full-time Education for Excluded Pupils' (2004) a gyhoeddwyd gan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (gweler y Ddogfen Dystiolaeth) hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol yng nghyswllt sut mae awdurdodau lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon. Er ei fod yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn Lloegr, mae llawer o'r ystyriaethau hefyd yn berthnasol yng Nghymru.

1.16. Mae nifer o ddatblygiadau diweddar yng Nghymru wedi dechrau sefydlu strwythur i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae cynlluniau peilot yn cael eu treialu ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yng nghyswllt Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Un maes y mae'r cynlluniau peilot yn ceisio ei wella yw'r cyswllt rhwng ysgolion prif ffrwd, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig drwy rannu arbenigedd ar agweddau megis rheoli ymddygiad. Mae hwn yn datblygu'r dulliau sydd eisoes ar waith rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig drwy'r prosiect Datgloi Potensial. Yr ail elfen sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd yw datblygu gweithio amlasiantaeth er mwyn cryfhau ailintegreiddio.

1.17. Mae'r angen i gasglu rhagor o wybodaeth am nifer y bobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg y tu allan i leoliad ysgol hefyd yn cael sylw yn sgil sefydlu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Fel y nodwyd uchod, roedd y drefn casglu data flynyddol newydd hon sy'n casglu gwybodaeth am yr holl blant a'r bobl ifanc sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol ym mis Ionawr, wedi dechrau yn 2010. Fel sy'n digwydd yng nghyswllt CYBLD ar gyfer ysgolion, mae'r drefn hon yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion unigol ac yn darparu ffynhonnell wybodaeth newydd gadarn y gellir seilio penderfyniadau cynllunio a chomisiynu lleol arni ac y gellir ei defnyddio fel sail ar gyfer polisiâu cenedlaethol ym maes Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae'r wybodaeth a gesglir am bob disgybl unigol yn debyg i'r wybodaeth a gesglir yn y CYBLD i ysgolion, ac mae'n cynnwys nodweddion personol, yn ogystal â'r math o ddarpariaeth a'r oriau o ddarpariaeth y mae pob unigolyn ifanc wedi'i gael yn yr wythnos dan sylw.

1.18. Mae'r Datganiad Ystadegol ar gael ar wefannau Llywodraeth Cymru a galwyd y datganiad ar gyfer 2010 yn 'ystadegau arbrofol' er mwyn cydnabod y ffaith bod y casgliad cyntaf hwn o ddata o'r fath yn annhebygol o fod mor fanwl gywir â'r data a gaiff ei gasglu yn y blynyddoedd dilynol oherwydd bod angen sefydlu prosesau dilysu a diffiniadau yn llawn.

1.19. Mae anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad ysgol yn aml yn gymhleth ac yn galw am ymyriadau ar ran nifer o

bartneriaid eraill heblaw ysgolion ac adrannau addysg awdurdodau lleol, e.e. adrannau gwasanaethau cymdeithasol, mudiadau yn y sector gwirfoddol, timau troseddau ieuenctid, a CAMHS. O gofio'r angen hwn am gydweithio ar draws nifer o asiantaethau, mae gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc rôl allweddol i'w chwarae o ran goruchwyllo'r gwaith o gydlynu cynllunio a chomisiynu darpariaeth briodol.

2. Cyd-destun yr Adolygiad

2.1. Yr **egwyddorion** oedd yn sail i'r Adolygiad oedd:

y dylem ddechrau â'r hyn fyddai'n gweithio orau yng nghyswllt pob unigolyn ifanc, gan ystyried gwahanol anghenion a barn pob unigolyn ac mewn ymgynghoriad â rhieni a gofalwyr; ac

y dylem sicrhau hawl addysgol graidd i bob unigolyn ifanc sy'n cael darpariaeth amgen.

2.2. Ei **nodau** penodol oedd:

gwella'r gwaith o gynllunio a chomisiynu darpariaeth amgen ar lefel ardal ac ar lefel yr unigolyn;

gwella lefel a'r defnydd strategol o wybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phlethu hyn i mewn i system rheoli perfformiad ehangach ar gyfer awdurdodau lleol.

gwella lefel y cymorth proffesiynol sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y sector a gwell adeiladau a chyfleusterau;

bod angen cydweithio gwell rhwng darpariaeth amgen, rhannau eraill y sector addysg a gwasanaethau ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn hwyluso ymyrryd cynnar a sicrhau ymdriniaeth integredig yng nghyswllt diwallu anghenion yr unigolyn ifanc;

sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws Cymru.

Canllawiau

2.3. Nodir canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar ddarparu addysg y tu allan i leoliad ysgol (neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol) yn Adran 5, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr 47/2006). Ceir canllawiau penodol ar Unedau Cyfeirio Disgyblion yn Atodiad 5.1 yr adran honno.

2.4. Mae'r canllawiau'n ymdrin â'r un agweddau ag a drafodir yn yr adolygiad hwn h.y. bod angen darpariaeth benodol i sicrhau bod disgyblion sydd, oherwydd salwch neu oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu oherwydd rhyw reswm arall, yn cael addysg briodol. Nid yw'n ymwneud â darpariaeth gyffredinol y tu allan i'r ysgol ar gyfer yr holl ddisgyblion, sef yr hyn mae Llwybrau Dysgu ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yn canolbwyntio arno.

Deddfwriaeth

2.5. Nodir y ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad B.

3. Agweddau sy'n galw am sylw

3.1. Yn yr adran hon, ceir crynodeb o nifer o'r prif ystyriaethau sydd wedi'u nodi ar gyfer Cymru yn y dogfennau a nodir ym Mhennod 1. Mae'r camau gweithredu a bennwyd er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau wedi'u nodi yn y testun. Caiff nifer o'r rhain eu hailadrodd oherwydd eu bod yn ymdrin â mwy nag un agwedd.

Ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth yng Nghymru.

Cynllunio, comisiynu a'r defnydd strategol o ddarpariaeth

3.2. Mae adroddiadau arolygu awdurdodau lleol a data ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn amlygu'r amrywiaeth eang o ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol sydd ar gael yng Nghymru, o safbwynt math a lefel, gan gynnwys safon yr adeiladau y mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli ynddynt. Er enghraifft, mae gan yr awdurdod mwyaf yng Nghymru, sef Caerdydd, 1 Uned Gyfeirio Disgyblion ac mae gan yr awdurdod lleiaf, sef Merthyr Tudful, hefyd 1 uned, sy'n dangos agwedd wahanol iawn. Mae'r graddau y mae darpariaeth y tu allan i'r ysgol yn nodweddu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc hefyd yn amrywio'n sylweddol. Efallai bod llawer o'r amrywiaeth hon yn gysylltiedig â phenderfyniadau lleol ynghylch faint o gyllid sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addysg amgen neu â ffordd wahanol iawn o drefnu gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, efallai bod lle i asesu pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol o ran canlyniadau disgyblion ac i gyflwyno trefniadau comisiynu a chynllunio mwy effeithiol mewn rhai ardaloedd. Gallai hyn helpu i wella'r elfen o weithio mewn partneriaeth mewn awdurdodau lleol ymysg y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Cwricwlwm

3.3. Nid oes yn rhaid i Unedau Cyfeirio Disgyblion a darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol, ond dylent gynnig cwricwlwm cytbwys ac eang (paragraff 6 (2) Atodlen 1 o Ddeddf 1996) sy'n: hybu datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yr ysgol a'r gymdeithas; ac sy'n paratoi disgyblion ar gyfer cyfrifoldebau, cyfleoedd a phrofiadau bywyd fel oedolyn. Pwrpas cynnig yr hyblygrwydd hwn o ran cwricwlwm yw galluogi awdurdodau ac ysgolion i dreulio mwy o amser ar anghenion penodol unigolion. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd hwn yn arwain at amrywiaeth eang o wahanol gwricwla mewn gwahanol Unedau Cyfeirio Disgyblion ac awdurdodau. Byddai'n fuddiol archwilio'r dulliau mae'r sefydliadau hynny sy'n cynnig cwricwlwm ehangach yn eu defnyddio ac ystyried sut y gellid mabwysiadu'r dulliau hynny ar raddfa ehangach. Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, wedi ehangu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn ddiweddar i gynnwys lleoliadau y tu allan i'r ysgol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i fanteisio arni. Mae'r rhaglen yn

ymdrin â chamddefnyddio sylweddau, diogelwch personol a pherthynas ag eraill, ac mae'n cwmpasu ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Cydweithio rhwng awdurdodau

3.4. O gofio maint a natur leol y ddarpariaeth, efallai nad yw cydweithio ar raddfa eang rhwng awdurdodau yn ymarferol o ran rhannu darpariaeth benodol, ond efallai bod cyfle i gydweithio yng nghyswllt comisiynu lleoedd gan yr un sefydliadau yn y sector preifat neu'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau safonau a threfniadau codi tâl teg ac archwilio'r posibiladau o ran arbedion maint. Gallai cydweithio ganolbwyntio ar sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ledled Cymru er mwyn iddynt weithredu fel sail ar gyfer cynllunio a chomisiynu Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn effeithiol. Dylai mwy o wybodaeth am blant a phobl ifanc sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol ym mhob awdurdod gynnig mwy o gyfle i drin a thrafod y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill - yn arbennig yr awdurdodau hynny sydd â phoblogaeth sy'n rhannu nodweddion economaidd-gymdeithasol tebyg.

Sicrhau darpariaeth gyfoes

3.5. Mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn gallu cadw eu gwybodaeth yn gyfoes am ddulliau newydd, seiliedig ar ddatblygiadau technolegol, a bod yr wybodaeth honno wrth law er mwyn iddynt wneud penderfyniadau doeth ynghylch sut i wneud y defnydd gorau o ddulliau arloesol. Un enghraifft o hyn yw'r ystod o ddewisiadau, megis rhith-ysgolion, sy'n galluogi'r rheiny sydd angen addysg yn eu cartrefi (e.e. oherwydd salwch) i gael mynediad at adnoddau dysgu a chymorth unigol.

Y Safonau Gofynnol

3.6. Gallai llunio safonau darparu gofynnol ar gyfer y rheiny sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol yng nghyswllt oriau o ddarpariaeth, amrywiaeth y cwricwlwm ayyb helpu o ran mynd i'r afael â pheth o'r anghyfartaledd yn y ddarpariaeth, gan gydnabod ar yr un pryd bod rhai o'r safonau hyn eisoes wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Un ffordd o wneud hyn fyddai nodi'r safonau mewn dull gweithredu sy'n seiliedig ar hunanwerthuso, yn debyg i'r proffil a ddefnyddir yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion neu'r pecyn cymorth ar gyfer cynhwysiant sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu:

- **Cyhoeddi canllawiau newydd ar gomisiynu darpariaeth amgen.**
- **Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion drwy sefydlu CYBLD ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a phlethu hwn i mewn i'r fframwaith perfformiad ehangach ar gyfer awdurdodau lleol.**
- **Datblygu ffyrdd o rannu arferion da, gan gynnwys defnyddio dulliau sy'n cael eu datblygu drwy dudalennau'r Fframwaith**

Effeithiolrwydd Ysgolion ar y we a thrwy'r Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad.

- **Ystyried y cyfleoedd i wreiddio Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn ddyfnach mewn lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac i ehangu'r rhaglen.**
- **Pennu safonau gofynnol yng nghyswllt darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.**

Ailintegreiddio disgyblion

3.7. Er nad oes ffigyrau ar lefel Cymru-gyfan ar gael ynghylch faint o'r holl ddisgyblion sydd wedi cael eu cyfeirio at ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol sydd wedi ailintegreiddio'n llwyddiannus mewn darpariaeth prif ffrwd, mae ffigurau ynghylch y ddarpariaeth o addysg ar yr 16eg diwrnod ar ôl gwaharddiad yn awgrymu amrywiaeth eang o ddulliau ledled Cymru. Byddai casglu rhagor o wybodaeth am gyfraddau ailintegreiddio ym mhob awdurdod lleol ar sail un tro'n unig yn cyfrannu at lunio dulliau gweithredu cenedlaethol ar gyfer agwedd anodd ar waith awdurdodau lleol ac ysgolion.

Gweithredu:

- **Cynnal prosiect ymchwil ar sail unwaith yn unig a fydd yn archwilio'r rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflenwi darpariaeth llawn amser i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd; ystyried cyfraddau ailintegreiddio ar draws awdurdodau lleol Cymru; a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da.**

Disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol – cofrestru deulol a chyllido

3.8. Mae materion penodol yn codi yng nghyswllt disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeulol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion prif ffrwd neu yng nghyswllt disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n mewn ysgolion yn unig sy'n derbyn eu holl addysg y tu allan i leoliad ysgol. Gall cofrestru deulol fod yn ddull defnyddiol iawn yng nghyswllt y disgyblion hynny sydd ddim yn gallu ymdopi â phwysau addysg prif ffrwd, naill ai am gyfnod penodol o amser neu ar sail amser llawn neu am gyfran o'r wythnos, gyda golwg, lle bo modd, ar eu hailintegreiddio mewn addysg prif ffrwd neu ysgol arbennig.

3.9. Tra bo disgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgol, bydd yr ysgol yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau tuag at y disgyblion hynny, gan gynnwys parhau i fod yn gyfrifol am eu lles a chofnodi eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad. Mae'n amlwg o ddata'r CYBLD nad yw llawer o ysgolion yn cydymffurfio â'u dyletswydd i gofnodi presenoldeb disgyblion pan maent i fod i fynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion. Cofnodir presenoldeb o 100% ar gyfer cyfran fawr o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeulol sy'n amlygu'r ffaith bod ysgolion yn cofnodi eu bod yn bresennol pan maent i fod mewn Uned Cyfeirio Disgyblion heb wirio eu gwir gofnod presenoldeb.

3.10. Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn gweithredu'r arfer o gadw disgyblion ar gofrestr ysgol prif ffrwd er nad ydynt byth yn mynychu'r ysgol a'u bod ond cael darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Os yw awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r arfer hwn fel dull penodol a strategol o sicrhau cynhwysiant a bod yr ysgol 'gartref' yn parhau i gyflawni ei dyletswyddau tuag at y disgybl, gan gynnwys cadw cysylltiadau gweithredol, yna mae hwn yn ddull ymarferol. Fodd bynnag, mewn llawer achos, mae'n amlwg mai unig bwrpas gwneud hyn yn aml yw er mwyn i adrannau addysg awdurdodau lleol allu cael cyllid ar gyfer y disgyblion unigol yn lleol drwy'r unedau a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl ac yn genedlaethol drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae hyn yn ateb y broblem nad yw disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu fathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn unig yn ymddangos yn y naill fformiwla na'r llall ar hyn o bryd. Er bod Llywodraeth Cymru yn deall pam mae ymddygiad o'r fath yn digwydd, nid yw'n briodol, nac yn gyfreithlon mae'n debyg, os nad yw'r ysgolion lle mae'r disgyblion wedi eu cofrestru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau tuag at y disgyblion hynny. Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y fformiwla cyllido i gynnwys disgyblion sydd ond yn cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac sydd ond wedi'u cofrestru mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth arall. Ar yr un pryd bydd yn egluro'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol tuag at y disgyblion ar eu cofrestr. Bwriedir ymgorffori'r newidiadau hyn yn unrhyw newidiadau ehangach i drefniadau cyllido ysgolion yn hytrach na'u trin fel ymarfer ar wahân.

Gweithredu:

- **Gwella cywirdeb cofnodi presenoldeb disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol.**
- **Newid fformiwla cyllido i gynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn unig.**
- **Nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau ysgolion tuag at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda nhw.**

Lleoli Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

3.11. Mae adroddiadau Estyn wedi amlygu'r problemau sy'n codi yn sgil lleoli disgyblion ag anghenion arbennig cymhleth mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion sydd ddim yn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn. Bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yng nghyswllt ystyried sut y gellid disodli'r broses datganiadau bresennol â dull llai biwrocraidd a mwy cyfannol yn allweddol o ran trin a thrafod sut mae rhoi darpariaeth briodol i ddisgyblion ag AAA cymhleth na fydd fel arfer yn cynnwys eu lleoli mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Gweithredu:

- **Defnyddio canfyddiadau'r cynlluniau anghenion dysgu ychwanegol peilot i drafod beth yw'r ffordd orau i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac i osgoi eu**

Ileoli'n amhriodol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd

3.12. Mae'r canllawiau presennol ar waharddiadau yn *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn cyfeirio at ddarpariaeth amser llawn ar ôl gwaharddiad o 15 niwrnod. Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i roi 'addysg briodol' i ddisgyblion sy'n cael darpariaeth amgen. Diffinnir hynny fel 'addysg effeithlon addas i'w oedran, ei allu a'i ddoniau ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig y gallai fod ganddo'. Felly, gellid dadlau y dylai addysg, mewn sawl achos, eisoes fod yn addysg amser llawn oherwydd nid yw'n "addas" fel arall. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod maint y ddarpariaeth mae awdurdodau lleol yn ei rhoi ar hyn o bryd i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn amrywio'n fawr a bod angen gwneud mwy o waith yng nghyswllt archwilio ystyriaethau ymarferol gwneud darpariaeth llawn amser yn ddyletswydd statudol glir.

Gweithredu:

- **Cynnal prosiect ymchwil ar sail unwaith yn unig a fydd yn: archwilio'r rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflenwi darpariaeth llawn amser i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd; ystyried cyfraddau ailintegreiddio ar draws awdurdodau lleol Cymru; a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da.**

Symudiadau wedi'u rheoli - defnyddio Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel darpariaeth interim

3.13. Mae symudiadau wedi'u rheoli yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin ar draws Cymru erbyn hyn a phan mae'r rhain yn effeithiol, mae modd osgoi gwahardd disgybl yn barhaol ac maent yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddechrau eto â llechen lân. Mae rhai awdurdodau yn defnyddio darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel trefniant dros dro mewn symudiad wedi'i reoli o un ysgol prif ffrwd i un arall, yn aml gyda chytundeb â'r unigolyn ifanc, ei deulu a'r ysgol newydd ynghylch pa amodau y dylid eu bodloni (e.e. lefelau ymddygiad) cyn y caniateir iddo ymuno â'r ysgol newydd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ym mis Chwefror 2011 o'r enw 'Defnydd Effeithiol o Symudiadau wedi'u Rheoli: Cychwyn Newydd i Blant a Phobl Ifanc yn yr Ysgol' er mwyn nodi arferion da a gwella cysondeb dulliau gweithredu.

Casglu gwybodaeth a rheoli perfformiad

3.14. Ym mis Chwefror 2011 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sefydlu Uned Safonau Ysgolion fel rhan o'i hymgyrch i gryfhau cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Bydd hon yn canolbwyntio ar berfformiad ysgolion, a bydd

Llywodraeth Cymru yn ystyried a allai'r gwaith hwn hefyd gynnwys edrych ar berfformiad Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol neu a fyddai'n well gwneud hyn ar wahân ar ffurf ymdriniaeth gysylltiedig, gyfochrog.

3.15. Bydd y CYBLD newydd ar gyfer disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn golygu y bydd modd datblygu dull meincnodi a allai, yn y lle cyntaf, ganolbwyntio'n bennaf ar gyrhaeddiad. Efallai y byddai hefyd yn bosibl i ddefnyddio'r wybodaeth i edrych ar amrywiadau mewn cyfraddau ailintegreiddio ond byddai angen goresgyn rhwystrau ymarferol posibl. Gellid hefyd meincnodi presenoldeb yn yr un modd. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, bydd angen canolbwyntio ar wella cofnodi presenoldeb disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan ein bod yn gwybod mai'r unig beth sy'n digwydd yng nghyswllt llawer o'r disgyblion hyn yw cofnodi presenoldeb 100% ar eu cyfer. Maes arall y gellid ei archwilio fyddai gwahardd, ond byddai hyn yn golygu sefydlu dull gweithredu newydd gan nad yw gwaharddiadau wedi'u cynnwys yn y CYBLD ar hyn o bryd.

Gweithredu:

- **Sefydlu fframwaith meincnodi ar gyfer disgyblion sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol a fyddai'n cynnwys agweddau megis cyrhaeddiad, cyfraddau ailintegreiddio, gwaharddiadau a phresenoldeb.**

Unedau Cyfeirio Disgyblion

3.16. Mae'r canllawiau ar Unedau Cyfeirio Disgyblion yn *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn diffinio'r rhain fel a ganlyn:

...Cynhelir Unedau Cyfeirio Disgyblion gan Awdurdodau Lleol ac maent wedi'u trefnu'n arbennig i ddarparu addysg y tu allan i leoliad ysgol ar gyfer disgyblion na fyddai fel arall, efallai, yn cael addysg briodol ac addas....

.... nid yw Uned Cyfeirio Disgyblion yn ysgol prif ffrwd nac yn ysgol arbennig, ond mae'n fath o ysgol ac yn fath o addysg heblaw yn yr ysgol gyfreithiol. Mae'r unedau hyn yn amrywio o ran y math a'r nifer o ddisgyblion y darperir ar eu cyfer, pa mor hir mae disgyblion yn aros ynddynt, y trefniadau ar gyfer mynediad a throsglwyddo i addysg arall, natur y cwricwlwm a hyd y diwrnod ysgol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio modelau darparu gwahanol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, sydd wedi'u llunio i fodloni amgylchiadau lleol ac yn unol â pholisïau lleol. Ymysg y modelau darparu sydd gan awdurdodau lleol y gellid eu cynnwys yn y term 'Uned Cyfeirio Disgyblion' cynhwysfawr mae:

- darpariaeth mewn un safle;
- darpariaeth mewn sawl safle gydag un strwythur rheoli;
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion peripatetig (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig);
- darpariaeth "e-ddysgu" sy'n defnyddio TGCh ac adnoddau ar y we;
- gwasanaethau addysgu yn yr ysbyty ac yn y cartref, neu rannau ar wahân mewn gwasanaeth sy'n darparu addysg mewn uned neu mewn lleoliad ysgol;
- rhywfaint o ddarpariaeth ysbyty;
- darpariaeth ar wahân ar gyfer mamau ifanc / disgyblion beichiog; a
- darpariaeth ymbarél i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol

3.17. Dangosir nifer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion sydd ym mhob awdurdod yn Atodiad C. Bwriad Unedau Cyfeirio Disgyblion yw cynnig darpariaeth tymor byr gyda golwg ar ailintegreiddio disgyblion mewn addysg prif ffrwd, ond mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli efallai y bydd angen i rai disgyblion eu mynychu am gyfnod hirach, yn enwedig os ydynt yn tynnu tuag at ddiwedd yr oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, dylid gwneud y penderfyniad hwn ar sail anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc a dylid parhau i adolygu unrhyw leoliadau tymor hir yn aml.

3.18. Nid oes yn rhaid i awdurdodau lleol ofyn am ganiatâd Llywodraeth Cymru i sefydlu neu i gau Uned Cyfeirio Disgyblion ond mae'n rhaid iddynt hysbysu Llywodraeth Cymru pan fyddant yn gwneud hyn. Nid yw hyn bob amser wedi digwydd yn y gorffennol ond mae'n ymddangos fel pe bai pethau wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf wrth i Lywodraeth Cymru fynd ati i dynhau cofrestru a datgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae wedi creu

ffurflen gofrestru a datgofrestru yn ddiweddar ac mae hon wedi bod ar waith ers Hydref 2009.

3.19. O gofio'r amrywiaeth eang o fathau posibl o Unedau Cyfeirio Disgyblion nid yw bob amser yn amlwg a ddylai darpariaeth benodol gael ei dosbarthu fel Uned Cyfeirio Disgyblion. Am y rheswm hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru archwiliad o Unedau Cyfeirio Disgyblion gydag awdurdodau lleol yn 2005/06 oedd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd gan Estyn yn ei adolygiad thematig yn 2005. Cynhaliwyd yr ymarfer eto ar raddfa lai yn Hydref 2009 a 2010 er mwyn sicrhau cofnodion mor ddiweddar â phosibl ar gyfer y CYBLD ym mis Ionawr 2010 a 2011. Bydd hwn yn parhau i fod yn ymarfer blynyddol.

Cyfathrebu - cysylltiadau rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion prif ffrwd

3.20. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod staff a disgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn aml yn teimlo ar eu pennau eu hunain. Yng nghyswllt y staff, efallai bod hyn yn amlgu ei hun fel diffyg gwybodaeth am ddatblygiadau yn yr awdurdod lleol neu yn genedlaethol, diffyg grym yng nghyswllt gwneud penderfyniadau ynghylch sut i redeg eu Huned Cyfeirio Disgyblion, dim digon o gyfle i fanteisio ar hyfforddiant neu ar gyfleodd datblygu a dim digon o wybodaeth, neu wybodaeth hwyr, am ddisgyblion unigol sy'n cael eu cyfeirio at yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Yn yr un modd, efallai bod disgyblion yn teimlo ar eu pennau eu hunain am nifer o resymau - er enghraifft oherwydd bod lleoliad daearyddol yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn golygu bod yn rhaid iddynt deithio ymhellach, o bosibl ar eu pennau eu hunain; cael eu gwahanu oddi wrth y grŵp o ffrindiau oedd ganddynt o'r blaen yn yr ysgol prif ffrwd; a llai o ddewis o ran gweithgareddau e.e. mynediad at gyfleusterau chwaraeon.

3.21. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod staff Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, efallai bod lle i gymryd rhai camau ar lefel genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Gellid datblygu dulliau ar lefel genedlaethol i sicrhau bod staff Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau gwybodaeth sydd ar gael, yn enwedig y rheiny sydd â'r nod o rannu arferion da.

3.22. Mae'r Cynllun Peilot Ymddygiad a Phresenoldeb 3 yn creu cyfle i ddatblygu model ymarfer ar gyfer rhannu arbenigedd mewn rheoli ymddygiad mewn ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion prif ffrwd a fydd hefyd yn darparu cyfle i wella cysylltiadau rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion prif ffrwd.

3.23. Wrth ystyried ffyrdd i geisio lleddfu'r ymdeimlad o unigrwydd mae disgyblion unigol yn ei deimlo, bydd ceisio gwella arferion yng nghyswllt cofrestru deuol yn rhan o'r ymdriniaeth, yn ogystal â cheisio cryfhau ailintegreiddio ymysg disgyblion. Gellid gwneud hyn drwy ddatblygu dulliau o rannu arferion da yn ogystal â datblygu dulliau drwy'r Cynllun Peilot Ymddygiad a Phresenoldeb 2 y gellid eu defnyddio'n genedlaethol.

Pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Ysgolion

3.24. Er mai arfer da a argymhellir yn hytrach na gofyniad statudol yw pwyllgorau rheoli, mae'r mwyafrif o Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru yn ymddangos fel pe bai ganddynt bwyllgorau o'r fath. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pwyllgor rheoli sy'n herio ac sy'n cynorthwyo â'r gwaith o gyflenwi addysg mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cryfhau effeithiolrwydd Unedau Cyfeirio Disgyblion. Gellid ategu'r arfer effeithiol o sefydlu pwyllgorau rheoli drwy wneud y rhain yn ofyniad gorfodol a / neu drwy lunio canllawiau ar sut y byddai'r rhain yn gweithio orau.

Gweithredu:

- **Parhau â'r broses o gofrestru a datgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion a chadarnhau'r rhain drwy gynnal archwiliadau rheolaidd o ddarpariaeth Awdurdodau Lleol.**
- **Gwneud pwyllgorau rheoli yn ofyniad statudol yng Nghymru a chyhoeddi canllawiau ar sut i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.**
- **Defnyddio'r cynlluniau peilot ymddygiad a phresenoldeb i wella ymdriniaethau ar lefel genedlaethol er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol; cryfhau lefel ailintegreiddio plant a phobl ifanc o ddarpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn addysg prif ffrwd; a gwella'r gwaith o rannu arbenigedd a lefelau cyfathrebu rhwng darpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd.**
- **Cynnal prosiect ymchwil ar sail unwaith yn unig a fydd yn archwilio'r rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflenwi darpariaeth llawn amser i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd; ystyried cyfraddau ailintegreiddio ar draws awdurdodau lleol Cymru; a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da.**
- **Gwella'r dulliau o gyfathrebu â staff Unedau Cyfeirio Disgyblon ar lefel genedlaethol, yn arbennig yng nghyswllt rhannu arferion da.**

Hyfforddiant a datblygiad

3.25. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o lunio dulliau gweithredu newydd yng nghyswllt datblygiad proffesiynol parhaus, safonau proffesiynol a rheoli perfformiad ar gyfer ymarferwyr addysg. Dynodwyd rheoli ymddygiad ac anghenion dysgu ychwanegol fel 2 o'r 6 elfen â blaenoriaeth sydd i'w cynnwys yn y gwaith hwn. Bydd yn allweddol i sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r trefniadau newydd.

Gweithredu:

- **Sicrhau bod y rheiny sy'n darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r**

agweddau newydd ar anghenion dysgu ychwanegol ac ymddygiad sydd yn nulliau gweithredu newydd Llywodraeth Cymru yng nghyswllt datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr addysg.

Atodiad A: Rhestr o Gamau Gweithredu yn sgil yr Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn y ddogfen. Pennwyd y lefelau blaenoriaeth yn sgil trafodaethau â gweithgor o gynrychiolwyr awdurdod lleol ac Estyn ac â'r Grŵp Llywio sy'n gyfrifol am roi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymddygiad a Phresenoldeb ar waith. Bydd gwaith yn dechrau yng nghyswllt yr holl gamau gweithredu yn ystod 2011-12 a rhoddir mwy o bwyslais ar gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi cael y flaenoriaeth uchaf yn yr amser byrraf posibl.

Rhif	Gweithredu	Blaenoriaeth
Cyfathrebu a datblygu staff		
1	Datblygu ffyrdd o rannu arferion da, gan gynnwys defnyddio dulliau sy'n cael eu datblygu drwy'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, tudalennau ar y we a thrwy'r Rhwydwaith Timau Cymorth Ymddygiad.	Uchel
2	Sicrhau bod y rheiny sy'n darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r agweddau newydd ar anghenion dysgu ychwanegol ac ymddygiad sydd yn nulliau gweithredu newydd Llywodraeth Cymru yng nghyswllt datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr addysg.	Uchel
3	Gwella'r dulliau o gyfathrebu â staff Unedau Cyfeirio Disgyblon ar lefel genedlaethol, yn arbennig yng nghyswllt rhannu arferion da.	Canolig
Cyllid		
4	Newid fformiwlâu cyllido i gynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru fel rhai mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn unig.	Uchel
5	Cynnal prosiect ymchwil ar sail unwaith yn unig a fydd yn: archwilio'r rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflenwi darpariaeth llawn amser i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd; ystyried cyfraddau ailintegreiddio ar draws awdurdodau lleol Cymru; a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da.	Canolig

Rheolaeth a threfn		
Rhif	Gweithredu	Blaenoriaeth
6	Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion drwy sefydlu CYBLD ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a phlethu hyn i mewn i'r fframwaith perfformiad ehangach ar gyfer awdurdodau lleol.	Uchel
7	Parhau â'r broses o gofrestru a datgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion a chadarnhau'r rhain drwy gynnal archwiliadau rheolaidd o ddarpariaeth Awdurdodau Lleol.	Uchel
8	Gwneud pwyllgorau rheoli yn ofyniad statudol yng Nghymru a chyhoeddi canllawiau ar sut i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.	Uchel
5	Cynnal prosiect ymchwil ar sail unwaith yn unig a fydd yn: archwilio'r rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflenwi darpariaeth llawn amser i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd; ystyried cyfraddau ailintegreiddio ar draws awdurdodau lleol Cymru; a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da.	Canolig

Safonau a chomisiynu		
9	Cyhoeddi canllawiau newydd ar gomisiynu darpariaeth amgen.	Uchel
10	Ystyried y cyfleoedd i wreiddio Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn ddyfnach mewn lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac i ehangu'r rhaglen.	Uchel
11	Pennu safonau gofynnol yng nghyswllt darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.	Uchel
12	Gwella cywirdeb cofnodi presenoldeb disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol.	Uchel
13	Sefydlu fframwaith meincnodi ar gyfer disgyblion sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol, a allai gynnwys agweddau megis cyrhaeddiad, cyfraddau ailintegreiddio, gwaharddiadau a phresenoldeb.	Uchel
14	Defnyddio'r cynlluniau peilot yng nghyswllt ymddygiad a phresenoldeb i wella dulliau gweithredu ar lefel genedlaethol i leihau nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol; cryfhau lefel ailintegreiddio plant a phobl ifanc o ddarpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn addysg prif ffrwd; a gwella'r gwaith o rannu arbenigedd a lefelau cyfathrebu rhwng darpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd.	Uchel

15	Nodi'n glir beth yw cyfrifoldebau ysgolion tuag at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda nhw.	Canolig
Rhif	Gweithredu	Blaenoriaeth
Safonau a chomisiynu (parhad)		
16	Parhau i wneud yn siŵr bod anghenion dysgwyr mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael sylw llawn wrth ddatblygu a gweithredu polisiau cenedlaethol.	Canolig
17	Defnyddio canfyddiadau'r cynlluniau anghenion dysgu ychwanegol peilot i drafod beth yw'r ffordd orau i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac i osgoi eu lleoli'n amhriodol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol.	Uchel

Atodiad B: Deddfwriaeth Berthnasol

Adran 19 Deddf Addysg 1996 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â dyletswydd Awdurdodau Lleol i drefnu addysg briodol ar gyfer pobl ifanc y tu allan i ysgolion prif ffrwd. Mae Adran 19(1) Deddf Addysg 1996 (fel y'i newidiwyd gan Adran 47 Deddf Addysg 1997) yn darparu ar gyfer:

“Bydd pob awdurdod addysg lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu addysg briodol yn yr ysgol neu mewn lleoliad heblaw'r ysgol ar gyfer y plant oedran ysgol hynny na fyddant am ryw gyfnod yn derbyn addysg briodol oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu unrhyw reswm arall oni bai bod trefniadau'n cael eu gwneud ar eu cyfer”.

Diffinnir addysg briodol fel addysg 'effeithlon' sy'n briodol i oedran, gallu, doniau, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn (neu'r unigolyn ifanc). Awdurdodau Lleol sy'n penderfynu beth sy'n addysg briodol y tu allan i'r ysgol i blentyn penodol, mewn ymgynghoriad â rhieni, ac yn unol â pholisiau'r Awdurdod Lleol, y defnydd effeithlon o adnoddau a chan ystyried y canllawiau hyn. Ni chaiff Awdurdodau Lleol benderfynu peidio â threfnu unrhyw addysg neu wneud trefniadau sydd ddim yn darparu addysg briodol i'r plentyn hwnnw.

Dan adran 4(2) Deddf Addysg 1996 (fel y'i newidiwyd gan baragraff 10, Atodlen 7 o Ddeddf Addysg 1997) gall yr Awdurdod Lleol drefnu bod plentyn yn mynychu ysgol prif ffrwd ar sail rhan amser fel rhan o becyn o gamau a luniwyd i ddarparu addysg briodol.

Mae Adran 26 Deddf Plant 2004 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn nodi'r trefniadau ar gyfer addysgu plant heblaw yn yr ysgol yn eu Cynlluniau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Mae Adran 19(4) Deddf 1996 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol i "bobl ifanc", hynny yw, rhywun sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond sydd dan 18 oed.

Mae Adran 19(2) Deddf 1996 yn nodi bod Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fath cyfreithiol o ysgol er eu bod, at ddibenion adran 19 Deddf Addysg 1996, yn cael eu dosbarthu fel cyrff sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.

Mae is-deddfwriaethau, ar ffurf rheoliadau, hefyd mewn grym yng nghyswllt Unedau Cyfeirio Disgyblion, sef:

Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2007

Mae'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod darpariaethau cyfreithiol amrywiol yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ogystal ag ysgolion a gynhelir. Mae'r darpariaethau wedi'u cynnwys yn y Deddfau canlynol:

Deddf Addysg 1996 – Adrannau 404,405 a 559 sy'n ymwneud â'r gofyniad bod gan ysgolion bolisiau ar addysg rhyw ac i ddarparu cludiant.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 – Adrannau 19, 61 a 62 sy'n ymwneud â phwerau Gweinidogion i gau ysgolion, cyfrifoldebau ysgolion a chyrrff llywodraethu am ddisgyblaeth a phŵer wrth gefn Awdurdodau Lleol i rwystro disgyblaeth rhag chwalu.

Deddf Addysg 2002 - Adrannau 29(3), 30(4), 32, 101(1)(d) sy'n ymwneud â phŵer ysgolion i fynnu bod disgyblion yn mynychu darpariaeth oddi ar y safle, sy'n mynnu bod penaethiaid (athrawon â gofal) yn darparu adroddiadau i'r Awdurdod Lleol, cyfrifoldeb dros bennu dyddiadau ac amseroedd tymhorau, gwyliau a sesiynau, a gofyniad bod addysg rhyw yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol yng nghyswllt disgyblion oed ysgol uwchradd.

Deddf Addysg 2005 – Rhan 1 sy'n ymwneud ag arolygiadau ysgolion.

Mae'r is-deddfwriaethau canlynol hefyd yn berthnasol:

Rheoliadau Awdurdod Addysg Lleol (Talu Costau Ysgolion) 1999
Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Mae'r rheoliadau hefyd yn datgymhwyso rhai darpariaethau penodol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion:

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 - Adrannau 86 a 94 sy'n ymwneud â dewis rhieni a threfniadau ar gyfer apeladau derbyn.

a

Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

b. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol)(Cymru) 2003

Cyflwynodd y rheoliadau hyn yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad o uned cyfeirio disgyblion. I raddau helaeth, maent yn adlewyrchu'r un dulliau a'r dulliau yng nghyswllt ysgolion a gynhelir.

Atodiad C: Nifer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion Cofrestredig yn ôl awdurdod lleol, Chwefror 2011

Ynys Môn	0
Gwynedd	3
Conwy	4
Sir Ddinbych	1
Sir y Fflint	1
Wrecsam	3
Powys	2
Ceredigion	1
Sir Benfro	1
Sir Gaerfyrddin	2
Abertawe	4
Castell-nedd Port Talbot	3
Pen-y-bont ar Ogwr	1
Bro Morgannwg	3
Rhondda Cynon Taf	4
Merthyr Tudful	4
Caerffili	5
Blaenau Gwent	1
Torfaen	1
Sir Fynwy	2
Casnewydd	2
Caerdydd	1
Cymru - Chwefror 2011	49
Cymru – Ionawr 2009	53
Cymru – Ionawr 2008	51
Cymru – Ionawr 2007	41
Cymru – Ionawr 2006	32
Cymru – Ionawr 2005	31

Ffynhonnell: Cofrestr Unedau Cyfeirio Disgyblion Llywodraeth Cymru, CYBLD

Cyfeiriadau

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008 on Track A Strategy for Modernising Alternative Provision for Young People

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008: Taking 'Back on Track' Forward

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2007: Guidance on Management Committees for Pupil Referral Units – Constitution and Roles and Responsibilities

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008: Commissioning Alternative Provision – Guidance for Schools and Local Authorities

Estyn, 2009: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-08

http://www.estyn.gov.uk/annual_report.asp

Estyn, 2007 Arfer awdurdodau addysg lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg

http://www.estyn.co.uk/ThematicReports/Monitoring_the_Location_of_Pupils_May_2007.pdf

Estyn, 2005: Arolwg Thematig o Unedau Cyfeirio Disgyblion a Darpariaeth Debyg

http://www.estyn.co.uk/publications/Remit_12_Thematic_survey_of_PR_Us_and_similar_provision.pdf

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2004: Good Practice in the Provision of Full-time Education for Excluded Pupils (adroddiad terfynol)

[http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/FTP01/FTP01_home.cfm?publicationID=346&title=Good%20practice%20in%20the%20provision%20of%20full-time%20education%20for%20excluded%20pupils%20\(final%20report\)](http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/FTP01/FTP01_home.cfm?publicationID=346&title=Good%20practice%20in%20the%20provision%20of%20full-time%20education%20for%20excluded%20pupils%20(final%20report))

Ofsted 2007: Pupil referral units: Establishing successful practice in pupil referral units and local authorities

<http://ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Documents-by-type/Thematic-reports/Pupil-referral-units-establishing-successful-practice-in-pupil-referral-units-and-local-authorities>

Ofsted, 2011: Alternative Provision

<http://ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Documents-by-type/Thematic-reports/Pupil-referral-units-establishing-successful-practice-in-pupil-referral-units-and-local-authorities>

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, Ymddygiad a Phresenoldeb, Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/nbасummaryactionplan/?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cylchlythyr Rhif 1/2004: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/exclusionguidance/?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cylchlythyr Rhif 47/06: Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/339214-wag/inclusionpupilsupportguidance/?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, Yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/educationalskillsnews/2233523/?lang=cy>

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau Deddf Plant 2004: Canllawiau Cynllunio

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=en>

Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru SDR 99/2009 – Cyfrifiad Ysgolion 2009: Canlyniadau Dros Dro

<http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090701sdr992009en.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cazbah, 2008: Cyflwyno

grwpiau ffocws Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb Adroddiad adborth i Grŵp Llywio'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/educationalskillsnews/2233523/?lang=cy>

Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20071069_en_1